# Dosbarthiad Tir Amaethyddol:

## Llanrwst, Conwy, Cymru

Paratowyd ar gyfer: **Reading Agricultural Consultants**

Paratowyd gan: **R W Askew BSC(Hons) MSc MISoilSci CSci Askew Land & Soil Limited**

Dyddiad:

**24 Ionawr 2020**

Rhif y Prosiect: **C681**

Rhif y Contract/Cynnig: C681

Rhifyn: 2

Awdur: Rob Askew

Dyddiad: 24 Ionawr 2020

*Mae ein dehongliad o nodweddion y safle'n seiliedig ar y data a oedd ar gael yn ystod ein hastudiaeth bwrdd gwaith a'n harolwg pridd. Mae'r astudiaeth bwrdd gwaith a'r arolwg pridd hwn wedi asesu nodweddion y safle mewn perthynas â'r asesiad o'i Ddosbarthiad Tir Amaethyddol. Ni ddylid dibynnu arno ar gyfer defnyddiau amgen nac ar gyfer cynlluniau eraill.*

| **Cofnod Rheoli Fersiynau** | | | |
|---|---|---|---|
| **Rhifyn** | **Disgrifiad o'r Statws** | **Dyddiad** | **Llythrennau Blaen** |
| A | Drafft Cyntaf | 20/01/2020 | RWA |
| 1 | Rhifyn Cyntaf i'r Cleient | 23/01/2020 | RWA |
| 2 | Ail Rifyn yn cynnwys sylwadau dilysu Dosbarthiad Tir Amaethyddol Llywodraeth Cymru | 24/01/2020 | RWA |

# CYNNWYS

**1 CYFLWYNIAD ........................................................................................................ 1**

1.1 Cefndir ........................................................................................................ 1

1.2 Methodoleg ........................................................................................................ 1

**2 DOSBARTHIAD TIR AMAETHYDDOL** ........................................................................................................ 3

2.1 Cyflwyniad ........................................................................................................ 3

2.2 Hinsawdd ........................................................................................................ 3

2.3 Safle ........................................................................................................ 4

2.4 Pridd ........................................................................................................ 5

2.5 Cyfyngiadau Rhyngweithiol ........................................................................................................ 7

2.6 Graddau Dosbarthiad Tir Amaethyddol ar y Safle ........................................................................................................ 8

**FFIGURAU**

Ffigur 1: Lleoliadau Sampl

Ffigur 2: Dosbarthiad Tir Amaethyddol

**ATODIADAU**

Atodiad A: Cofnodion Proffil y Pridd

Atodiad B: Disgrifiad o’r Pwll Pridd

Atodiad C: Dosbarthiad Maint y Gronynnau Uwchbridd

# 1 CYFLWYNIAD

## 1.1 Cefndir

1.1.1 Comisiynwyd yr adroddiad hwn gan Reading Agricultural Consultants i bennu ansawdd y tir amaethyddol ar safle a gynigir ar gyfer datblygiad preswyl yn Llanrwst, Conwy, Cymru, LL26 0DT (‘y Safle’). Gwneir yr asesiad yn unol â’r system Dosbarthiad Tir Amaethyddol ar gyfer Cymru a Lloegr (gweler yr adran ‘Methodoleg’ isod).

1.1.2 Mae'r Safle’n tua 9.5 hectar ac wedi'i leoli yng ngogledd Llanrwst. Amcangyfrifir bod canol y Safle ar gyfeirnod Grid Cenedlaethol Prydain SH 7964 6296. Caiff y Safle ei ffinio’n uniongyrchol gan ddatblygiad preswyl i’r de a’r de-ddwyrain, yr A470 i’r de-ddwyrain, a thir amaethyddol i’r gogledd a’r gogledd-orllewin. Dengys lleoliad y Safle yn **Ffigur 1.**

## 1.2 Methodoleg

1.2.1 Paratowyd yr adroddiad hwn gan Wyddonydd Siartredig (CSci), sy’n Gymrawd ((F.I. Soil Sci) i Gymdeithas Gwyddoniaeth Pridd Prydain (BSSS). Mae’r awdur yn bodloni gofynion y Cynllun Cymhwysedd Proffesiynol ar gyfer Dosbarthiad Tir Amaethyddol y BSSS, sydd wedi’i gymeradwyo, ymhlith eraill, gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra), Natural England, y Cyngor Gwyddoniaeth, a’r Sefydliad Rheoli ac Asesu Amgylcheddol (gweler Dogfen 2 y BSSS ynghylch Dosbarthiad Tir Amaethyddol Cymru a Lloegr).[1]

1.2.2 Mae’r asesiad hwn yn seiliedig ar ganfyddiadau astudiaeth o wybodaeth gyhoeddus ar hinsawdd, daeareg a phridd, ynghyd â chanfyddiadau ymchwiliad pridd manwl a gwblhawyd gan y Weinyddiaeth Amaeth, Pysgodfeydd a Bwyd, yn unol â’r Dosbarthiad Tir Amaethyddol cenedlaethol ar gyfer Cymru a Lloegr: Canllawiau a Meini Prawf Diwygiedig ar gyfer Graddio Ansawdd y Tir Amaethyddol’, Hydref, 1988 (y cyfeirir atynt fel y ‘Canllawiau Dosbarthiad Tir Amaethyddol’). [2]

1.2.3 Mae’r system Dosbarthiad Tir Amaethyddol yn darparu fframwaith ar gyfer dosbarthu tir yn unol â graddau’r cyfyngiadau hirdymor ar ddefnydd amaethyddol sydd ynghlwm â’i nodweddion ffisegol neu gemegol. Mae’r system Dosbarthiad Tir Amaethyddol yn rhannu tir amaethyddol i bum gradd (Gradd 1 ‘Rhagorol’ i Radd 5 ‘Gwael Iawn’), a gellir rhannu Gradd 3 i Isradd 3a (Da) neu Isradd 3b ‘Cymedrol’. Caiff tir amaethyddol a ddosberthir fel Gradd 1, 2 ac Isradd 3a eu hystyried fel y tir ‘gorau a mwyaf amlbwrpas’ fel yr amlinellir ym mharagraff 3.54 Polisi Cynllunio Cymru (2018) a Nodyn Cyngor Technegol 6. Amlinellir gwybodaeth bellach ar y system Dosbarthiad Tir

[1] Cymdeithas Gwyddoniaeth Pridd Prydain. Dogfen 2 y Cynllun Cymhwysedd Proffesiynol - Dosbarthiad Tir Amaethyddol yng Nghymru a Lloegr. Ar gael ar-lein ar: https://www.soils.org.uk/sites/default/files/events/flyers/ipss-competency-doc2.pdf Gwelwyd ddiwethaf ar 21 Ionawr 2020

[2] Ymgorfforwyd y Weinyddiaeth Amaeth, Pysgodfeydd a Bwyd o fewn Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) ym mis Mehefin 2001

Amaethyddol a goblygiadau polisïau cynllunio cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru mewn canllawiau sydd ar gael ar-lein. [3]

1.2.4 Cwblhawyd arolwg pridd manwl a Dosbarthiad Tir Amaethyddol ar 8 Ionawr 2020. Roedd yr arolwg Dosbarthiad Tir Amaethyddol yn cynnwys archwiliad o nodweddion ffisegol y pridd mewn 10 lleoliad taradr, gyda dwysedd samplu o oddeutu un twll taradr fesul hectar. Archwiliwyd proffil y pridd ym mhob lleoliad sampl hyd at ddyfnder o oddeutu 1.2m â llaw, gan ddefnyddio taradr pridd yr Iseldiroedd (Edleman) gyda diamedr o 5cm. Cloddiwyd dau bwll pridd h.y. Pwll Pridd 1 a Phwll Pridd 2, â llaw gan ddefnyddio rhaw er mwyn archwilio nodweddion ffisegol y pridd, megis cynnwys cerrig a chyflwr strwythurol yr uwchbridd, yn agosach. Gwelir lleoliadau'r tyllau taradr a'r pyllau pridd ar Ffigur 1. Ceir cofnod o'r proffiliau pridd a gofnodwyd ym mhob lleoliad twll taradr yn **Atodiad A**. Ceir disgrifiad o'r proffil pridd a gofnodir ym Mhwll Pridd 1 a Phwll Pridd 2 yn **Atodiad B**.

1.2.5 Lleolwyd y tyllau taradr gan ddefnyddio System Wybodaeth Ddaearyddol E-Trec Garmin llaw er mwyn gallu ail-leoli'r lleoliadau sampl i'w gwirio, lle bo angen. Lle bo lleoliadau taradr ar batrwm grid 100m yn disgyn ar bentir, llinellau tram, neu o fewn 3m i wrych neu goeden, fe'u hail-leolwyd ar dir amaethyddol cyfagos, h.y i osgoi tir cywasgedig neu dir a effeithir gan wreiddiau coed, ac ati.

1.2.6 Disgrifiwyd y proffil pridd ym mhob lleoliad sampl gan ddefnyddio'r 'Soil Survey Field Handbook: Describing and Sampling Soil Profiles' (Ed. J.M. Hodgson, Prifysgol Cranfield, 1997). Priodolwyd gradd Dosbarthiad Tir Amaethyddol i bob proffil tir yn dilyn Canllawiau'r Weinyddiaeth Amaeth, Pysgodfeydd a Bwyd ar Ddosbarthiad Tir Amaethyddol.

1.2.7 Casglwyd sampl o uwchbridd yn lleoliadau tyllau taradr 1, 4 a 9 fel y gwelir yn Ffigur 1. Anfonwyd y samplau i labordy achrededig i bennu dosbarthiad maint y gronynnau / dadansoddi gwead y pridd h.y. canran y tywod, silt a chlai. Gwneir hyn er mwyn pennu dosbarthiad gwead yr uwchbridd. Ceir copi o Dystysgrif Dadansoddiad y labordy sy'n nodi canfyddiadau'r dadansoddiad o ddosbarthiad maint y gronynnau yn **Atodiad C.**

[3] Llywodraeth Cymru. Dosbarthiad tir amaethyddol: cwestiynau cyffredin. Ar gael ar-lein ar: https://www.llyw.cymru/dosbarthiad-tir-amaethyddol-cwestiynau-cyffredin Gwelwyd ddiwethaf 21 Ionawr 2020.

# 2 DOSBARTHIAD TIR AMAETHYDDOL

## 2.1 Cyflwyniad

2.1.1 Mae’r adran hon o’r adroddiad yn amlinellu canfyddiadau’r Dosbarthiad Tir Amaethyddol. Mae’n seiliedig ar astudiaeth bwrdd gwaith o wybodaeth gyhoeddus berthnasol ar hinsawdd, topograffeg, daeareg, a phridd ynghyd ag arolwg Dosbarthiad Tir Amaethyddol manwl a gwblhawyd ym mis Ionawr 2020.

2.1.2 Fel y disgrifir yn y Canllawiau Dosbarthiad Tir Amaethyddol, y prif ffactorau ffisegol sy’n dylanwadu ar ansawdd tir amaethyddol yw:

- hinsawdd;
- safle;
- pridd; a
- chyfyngiadau rhyngweithiol.

2.1.3 Ystyrir y ffactorau hyn yn eu tro isod.

## 2.2 Hinsawdd

2.2.1 Darperir data hinsawdd wedi ei ryngosod i bennu gradd y Dosbarthiad Tir Amaethyddol ar y Safle yn Nhabl 2.1 isod. Gan fod yr uchder yn amrywio, o oddeutu 52m uwchlaw’r seilnod ordans yn y gogledd, i oddeutu 9m uwchlaw’r seilnod ordans yn y de-orllewin, mae data hinsawdd wedi’i ryngosod ar draws pedwar uchder dros y safle cyfan. Defnyddiwyd y data i fireinio’r cyfrifiadau sychder pridd, a nodwyd yn y Cofnodion Proffil Pridd yn **Atodiad A,** h.y, mae’r cyfrifiadau wedi defnyddio’r data hinsawdd sydd agosaf o ran uchder i’r hyn a gofnodwyd yn lleoliad y twll taradr.

### Tabl 2.1: Data hinsawdd Dosbarthiad Tir Amaethyddol

| Paramedr Hinsawdd | Data ar gyfer SH 7973 6238 | Data ar gyfer SH 7960 6251 | Data ar gyfer SH 7971 6267 | Data ar gyfer SH 7977 6289 |
|---|---|---|---|---|
| Uchder cyfartalog (m) | 21 | 19 | 26 | 43 |
| Glaw blynyddol cyfartalog (mm) | 1209 | 1191 | 1185 | 1189 |
| Tymereddau cronnol uwchben 0˚C (Ionawr - Mehefin) | 1460 | 1462 | 1454 | 1435 |
| Diffyg Lleithder (mm) Gwenith | 84 | 85 | 84 | 81 |
| Diffyg Lleithder (mm) Tatws | 76 | 78 | 76 | 72 |
| Dyddiau Capasiti Cae | 242 | 240 | 240 | 241 |
| Gradd yn ôl hinsawdd | 2 | 2 | 2 | 2 |

2.2.2 Gan gyfeirio at Ffigur 1 *'Gradd yn ôl hinsawdd'* ar dudalen 6 yng Nghanllawiau'r Dosbarthiad Tir Amaethyddol, mae cyfyngiad hinsoddol cyffredinol o ran ansawdd y tir amaethyddol ar y Safle. Golyga hyn na all tir amaethyddol ar y Safle fod yn fwy na Gradd 2 yn sgil cyfyngiad hinsoddol hollbwysig, yn absenoldeb unrhyw ffactor cyfyngol arall, h.y. safle, pridd a/neu gyfyngiadau rhyngweithiol.

2.2.3 Rhagwelir bod y tir amaethyddol ar y safle wedi cyrraedd y capasiti cae (h.y. yn agos i bwynt dirlenwi) am 240 – 242 diwrnod o'r flwyddyn, yn bennaf tuag at ddiwedd yr hydref, gaeaf a dechrau'r gwanwyn. Bydd y cyfuniad o hyn gyda gwead uwchdir yn achosi 'cyfyngiadau rhyngweithiol' i ansawdd y tir amaethyddol ar y safle, h.y. gwlybaniaeth pridd a / neu sychder y pridd (gweler isod).

## 2.3 Safle

2.3.1 Fel y gwelir yn Ffigur 1, mae'r Safle'n tua 9.5 hectar ac wedi'i leoli yng ngogledd Llanrwst, Conwy. Amcangyfrifir bod canol y Safle ar gyfeirnod Grid Cenedlaethol Prydain SH 7964 6296.

2.3.2 O ran y Canllawiau Dosbarthiad Tir Amaethyddol, gall ansawdd tir amaethyddol fod wedi'i gyfyngu gan un neu fwy o'r tri phrif ffactor safle canlynol:

- graddiant;
- micro-dirwedd (h.y. newid cymhleth o ran ongl y llethr dros bellteroedd byr); a
- risg llifogydd;

### I. Graddiant a Micro-dirwedd

2.3.3 Mae'r tir ar y safle'n donnog. Mae'r uchder yn oddeutu 54 metr uwchlaw'r seilnod ordnans ar y pwynt uchaf yng ngogledd y safle. Mae'r uchder yn gostwng i oddeutu 9m uwchlaw'r seilnod ordnans ar y pwynt isaf yn y de-orllewin.

2.3.4 Defnyddiwyd mesurydd lefel Abney llaw i fesur ongl y llethrau ar y safle. Rhwng twll taradr 4 ac AB5, fel y dengys yn Ffigur 1, mae llethr serth i'r gorllewin gyda graddiant o 16. Mae ansawdd y tir amaethyddol ar y llethr serth hwn wedi'i gyfyngu gan raddiant i Radd 4 (yn unol â Thabl 1 Canllawiau Dosbarthiad Tir Amaethyddol, 1988) fel y gwelir ar y map Dosbarthiad Tir Amaethyddol yn **Ffigur 2.** Yn yr un modd, mae tir cymharol serth yn, ac o amgylch, AB7 (gweler Ffigur 1). Gyda graddiant o 14, mae tir amaethyddol ar y llethr serth hwn hefyd wedi'i gyfyngu gan raddiant i Radd 4, fel y gwelir yn Ffigur 2.

2.3.5 Mae'r tir yn y gogledd (h.y. yn ac o amgylch AB1 ac AB2, Ffigur 1) ac yn y canol (h.y. rhwng AB1 ac AB8, Ffigur 1), yn donnog. Mae llethr amlwg yn y tir yn yr ardaloedd hyn, gyda graddiant o rhwng 8 a 10. Cyfyngir ansawdd y tir amaethyddol yn y rhannau hyn o'r Safle gan raddiant i Isradd 3b, fel y gwelir yn Ffigur 2.

2.3.6 Er bod llethr ysgafn i gymedrol yn y tir (h.y. graddiant o rhwng 2 a 7), nid yw'r tir i'r gogledd-ddwyrain (h.y. rhwng AB3 ac AB5) ac yn y de (h.y. rhwng AB9 ac AB10) wedi'i gyfyngu gan raddiant, gan nad yw ongl y llethr yn fwy na 7 (Tabl 1 yng Nghanllawiau'r Dosbarthiad Tir Amaethyddol).

2.3.7 Nid yw ansawdd y tir amaethyddol ar y Safle wedi'i gyfyngu gan feicro-dirwedd, h.y. newidiadau cymhleth o ran ongl a chyfeiriad y llethr dros bellteroedd bychain.

### II Risg Llifogydd

2.3.8 Yn ôl gwefan Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio Llywodraeth Cymru[4][4], mae'r Safle wedi'i leoli mewn Parth Llifogydd A, sy'n golygu nad oes unrhyw risg o lifogydd afonol. Rhagwelir na fydd ansawdd y tir amaethyddol wedi'i gyfyngu gan risg llifogydd, gweler Tabl 2 '*Gradd yn ôl risg llifogydd yn yr haf*' a Thabl 3 '*Gradd yn ôl risg llifogydd yn y gaeaf*' yn y Canllawiau Dosbarthiad Tir Amaethyddol.

## 2.4 Pridd

### I. Daeareg/Deunydd Rhiant y Pridd

2.4.1 Defnyddiwyd gwybodaeth Arolwg Daearegol Prydain sydd ar gael ar-lein i nodi'r [5] craigwely o dan y Safle ac unrhyw ddyddodion arwynebol (drifft) uwchben y craigwely. Mae'r wybodaeth hon yn helpu i bennu'r deunydd rhiant y mae'r pridd yn tarddu ohono.

2.4.2 Mae gwybodaeth Arolwg Daearegol Prydain (1:50,000) yn dangos fod Ffurfiad Graean Dinbych o dan y safle cyfan. (Cerrig Llaid, Lleidfaen a Thywodfaen). Mae gwybodaeth Arolwg Daearegol Prydain (1:50,000) yn dangos nad yw'r craigwely wedi'i orchuddio ag unrhyw ddyddodion arwynebol, oni bai am ardal fechan o rewglai (Denfensaidd - Diamicton) yn y de-orllewin.

### II Gwybodaeth Gyhoeddus am y Pridd

2.4.3 Mae Map Pridd Cymru (Taflen 2) Arolwg Pridd Cymru a Lloegr ar raddfa o 1:250,000 a'r bwletin cysylltiedig rhif 11 'Soils and their Use in Wales' (C.C, Rudeforth et al. Harpenden, 1984) yn nodi fod tir amaethyddol ar y safle wedi'i orchuddio â phriddoedd yng nghymdeithas Manod.

2.4.4 Fel y disgrifir yn Arolwg Pridd Cymru a Lloegr, mae pridd Manod yn gyffredin iawn yng Nghymru ac er bod rhywfaint yn wastad neu ar lefel ysgafn, mae llawer o'r tir yn fwy serth na 11. Maent yn cynnwys priddoedd mân lomog yn bennaf, wedi'u draenio'n dda dros garreg llaid Palalosöig, lleidfaen neu lechen. Mae'r prif briddoedd yn hydraidd ac wedi'u draenio'n dda (Dosbarth Gwlybaniaeth 1), ond oherwydd yr hinsawdd, mae'r priddoedd yn parhau i fod yn llaith drwy gydol y flwyddyn fel arfer.

### III Arolwg Pridd

[4] Llywodraeth Cymru: Mapiau risg llifogydd hirdymor. Ar gael ar-lein ar https://map-llifogydd-ar-gyfer-cynllunio.cyfoethnaturiol.cymru/ Gwelwyd ddiwethaf 21/01/2020
'Geology of Britain Viewer' Arolwg Daearegol Prydain. Ar gael ar-lein ar https://www.bgs.ac.uk/map-viewers/geology-of-britain-viewer/

2.4.5 Nododd yr arolwg pridd a gynhaliwyd ar 8 Ionawr 2020 bresenoldeb tri math o bridd dros y Safle fel a ganlyn.

**Pridd Math 1 (cyfres Manod)**

2.4.6 Mae'r prif fath o broffil pridd ar y safle (h.y. AB1, AB2, AB6 ac AB7, Ffigur 1) yn cynnwys, uwchbridd lom clai canolig gydag ychydig o gerrig (6%), nad yw'n galchaidd, lliw brown/llwyd tywyll (lliw Munsell 10YR4/2), bas, gyda strwythur o flociau lledonglog mân, cymedrol. Ar ddyfnder o oddeutu 15cm, gorweddai'r uwchbridd dros derfyn gorwel sydyn, llyfn o isbridd uchaf lom clai canolig, eithaf caregog, nad yw'n galchaidd, lliw brown (lliw 10YR i 7.5YR4/3), gyda strwythur o flociau lledonglog cymedrol, canolig. Ar ddyfnder o oddeutu 33cm, ceir craigwely/deunydd rhiant carreg llaid caregog (llechog) llwyd (lliw Munsell 10YR5/1). Mae'r proffil wedi'i ddraenio'n dda (Dosbarth Gwlybaniaeth 1).

**Pridd Math 2**

2.4.7 Mae'r ail brif fath o bridd i'w weld yn AB3, AB5 ac AB9, Ffigur 1. Mae'r proffiliau'n debyg i fath 1, ond maent yn ddyfnach. Mae'r uwchbridd (0cm - 20cm) yn cynnwys uwchbridd lom clai canolig, nad yw'n galchaidd, gydag ychydig iawn o gerrig (2%), lliw brown (lliw Munsell 10YR4/3), gyda strwythur o flociau lledonglog mân, cymedrol. Mae'r uwchbridd uchaf (20cm - 60cm) yn bridd lom clai canolig brown melynaidd (lliw Munsell 10YR5/4), nad yw'n galchaidd, gydag ychydig iawn o gerrig (4%) gyda strwythur o flociau lledonglog cymedrol. Yn is na 60cm i ddyfnder llawn y twll taradr (120cm), mae'r isbridd isaf yn lliw brown melynaidd (lliw Munsell 10YR5/6), nad yw'n galchaidd, gydag ychydig iawn o gerrig (4%), clai silt gyda rhai smotiau melyn nodweddiadol (lliw Munsell 10YR5/6). Nid oes unrhyw orwelion (haenau) pridd yn cynnwys haen sy'n heneiddio'n araf, na lliwiau clai glas. Mae'r proffiliau wedi'u draenio'n dda (Dosbarth Gwlybaniaeth 1), yn unol â Thabl 13 y canllawiau Dosbarthiad Tir Amaethyddol.

**Pridd Math 3**

2.4.8 Doir o hyd i'r math hwn o bridd yn y llethrau isaf, AB4 ac AB10, Ffigur 1. Mae'r pridd yn derbyn dŵr ffo a dŵr tir o'r tir uwch cyfagos ac yn glai glas a brith o ganlyniad. Mae'r uwchbridd (0cm - 10cm) yn cynnwys uwchbridd lom clai canolig, gydag ychydig iawn o gerrig (2%), nad yw'n galchaidd, lliw llwyd (lliw Munsell 10YR5/2), gyda strwythur o flociau lledonglog canolig, cymedrol. Mae'r uwchbridd uchaf (10cm - 40cm) yn bridd lom clai canolig gydag ychydig iawn o gerrig (1%), nad yw'n galchaidd, llwyd (lliw Munsell 5YR5/1) gyda strwythur o flociau onglog bras cymedrol. Mae'r isbridd uchaf ac isaf yn glai glas ac â smotiau melyn cyffredin nodweddiadol (lliw Munsell 10YR 5/6). Nid oes yna unrhyw haen sy'n hydreiddio'n araf ond maent yn glai glas o fewn 40cm. Maent felly wedi'u nodi fel Dosbarth Gwlybaniaeth III, yn unol â Thabl 13 yn y Canllawiau Dosbarthiad Tir Amaethyddol. Mae llawer o frwyn meddal (*Juncuss spp.*) yn y glaswelltir, sy'n arwydd o dir gwlyb.

2.4.9 Ceir cofnod o'r naw proffil pridd a nodwyd yn ystod yr arolwg taradr yn **Atodiad A.** Ceir disgrifiadau o'r proffiliau pridd a gofnodwyd ar y Safle ym Mhwll Pridd 1 a Phwll Pridd 2 (gweler Ffigur 1) yn **Atodiad B.**

2.4.10 Casglwyd sampl o uwchbridd yn lleoliad twll taradr 1, 4 a 9 (gweler Ffigur 1), ac anfonwyd y

samplau i labordy achrededig i ddadansoddi dosbarthiad maint y gronynnau, yn seiliedig ar raddau maint gronynnau'r Sefydliad Safonau Prydeinig. . Ceir copi o Dystysgrif Dadansoddiad y labordy yn **Atodiad C.** Gellir gweld canfyddiadau'r dadansoddiad o ddosbarthiad maint y gronynnau yn Nhabl 3.2 isod:

### Tabl 2.2. Uwchbridd; gwead (tabl 10, Canllawiau'r Dosbarthiad Tir Amaethyddol)

| Lleoliad sampl yr uwchbridd (Gweler Ffigur 1) | % tywod 0.063-2.0 mm | % silt 0.002-0.063 mm | % clai <0.002 mm | Dosbarth Gwead Pridd y Dosbarthiad Tir Amaethyddol |
|---|---|---|---|---|
| Twll Taradr 1 | 35 | 40 | 25 | Lom Clai Canolig |
| Twll Taradr 4 | 22 | 55 | 23 | Lom Clai Canolig |
| Twll Taradr 9 | 33 | 43 | 24 | Lom Clai Canolig |

## 2.5 Cyfyngiadau Rhyngweithiol

2.5.1 Yn seiliedig ar y wybodaeth gyhoeddus a chanlyniadau'r ymweliad safle, pennwyd bod ansawdd y tir amaethyddol ar y safle wedi'i gyfyngu gan wlybaniaeth y pridd.

### I. Gwlybaniaeth y Pridd

2.5.2 Yn ôl Canllawiau'r Dosbarthiad Tir Amaethyddol, mae cyfyngiad gwlybaniaeth pridd yn bodoli "pan fydd y gyfundrefn dŵr pridd yn amharu ar dwf planhigion neu'n cyfyngu ar drin y tir neu bori gan dda byw'. Mae Tabl 2.3 isod yn dangos gradd Dosbarthiad Tir Amaethyddol yn ôl gwlybaniaeth pridd ar y Safle (yn seiliedig ar Dabl 6 'Gradd yn ôl Gwlybaniaeth Pridd - Priddoedd Mwynol' yn y Canllawiau Dosbarthiad Tir Amaethyddol):

### Tabl 2.3: Gradd Dosbarthiad Tir Amaethyddol yn ôl gwlybaniaeth pridd

Allwedd * <27% clai; a ** >27% clai

| Dosbarth Gwlybaniaeth | Gwead ar y 25cm uchaf | > 225 Diwrnod Capasiti Cae |
|---|---|---|
| C | Tywod, Tywod Lomog, Lom Tywodlyd, Lom Silt Tywodlyd | 2 |
| | Lom Clai Tywodlyd/Lom Clai Silt Canolig / Lom Clai Canolig* | 3a |
| | Lom Clai Trwm** | 3b |
| | Clai Tywodlyd / Clai Silt / Clai | 3b |
| II | Tywod, Tywod Lomog, Lom Tywodlyd, Lom Silt Tywodlyd | 3a |
| | Lom Clai Tywodlyd/Lom Clai Silt Canolig / Lom Clai Canolig* | 3b |
| | Lom Clai Trwm** | 3b |
| | Clai Tywodlyd / Clai Silt / Clai | 3b |
| III | Tywod, Tywod Lomog, Lom Tywodlyd, Lom Silt Tywodlyd | 3b |
| | Lom Clai Tywodlyd/Lom Clai Silt Canolig / Lom Clai Canolig | 3b |
| | Lom Clai Trwm** | 4 |
| | Clai Tywodlyd / Clai Silt / Clai | 4 |

2.5.3 Mewn ardal hinsawdd â 233 o ddyddiau capasiti cae, mae proffiliau pridd wedi'u draenio'n dda yn

Nosbarth Gwlybaniaeth I gydag uwchbridd lom clai canolig wedi'u cyfyngu gan wlybaniaeth pridd i Isradd 3a (Tabl 6 Canllawiau'r Dosbarthiad Tir Amaethyddol). Gydag uwchbridd lom clai canolig, mae'r proffil yn AB2 sy'n ddwrlawn yn dymhorol (Dosbarth Gwlybaniaeth II) wedi'i gyfyngu gan wlybaniaeth pridd i Isradd 3b (Tabl 6 y Canllawiau Dosbarthiad Tir Amaethyddol).

2.5.4 Lle mae Pridd Math 3 wedi'i leoli yn Nosbarth Gwlybaniaeth III (gweler uchod), mae proffiliau pridd gydag uwchbridd clai canolig wedi'u cyfyngu gan wlybaniaeth pridd i Isradd 3b.

## 2.6 Graddau Dosbarthiad Tir Amaethyddol ar y Safle

2.6.1 O'r wybodaeth a gyhoeddwyd uchod, ynghyd â chanfyddiadau'r arolwg Dosbarthiad Tir Amaethyddol manwl, penderfynwyd bod ansawdd y tir amaethyddol ar y Safle'n gyfuniad o Isradd 3a, Isradd 3b a Gradd 4.

2.6.2 Mae'r tir yn Isradd 3a wedi'i leoli ar lethrau ysgafn i gymedrol (<7°). Gyda phroffiliau wedi'u draenio'n dda (Dosbarth Gwlybaniaeth I), ac uwchbridd lom clai canolig, mae'r proffiliau hyn wedi'u cyfyngu i'r gradd hwn gan wlybaniaeth y pridd.


2.6.3 Mae'r tir yn Isradd 3b wedi'i gyfyngu naill ai gan raddiant (h.y. ongl y llethr rhwng 7° a 11°), neu wlybaniaeth pridd (h.y. 233 o ddyddiau capasiti cae, uwchbridd clai canolig, Dosbarth Gwlybaniaeth III). Mae rhywfaint o lethrau serth wedi'u cyfyngu gan raddiant i Radd 4.

2.6.4 Mae'r ardal (ha) a chanran (%) y tir amaethyddol yn y graddau Dosbarthiad Tir Amaethyddol gwahanol wedi'u pennu gan y map Dosbarthiad Tir Amaethyddol yn **Ffigur 2** a'u nodi yn Nhabl 2.5.

**Tabl 2.5: Dosbarthiad Tir Amaethyddol - Llanrwst, Conwy**

| Gradd Dosbarthiad Tir Amaethyddol | Cyfanswm (Ha) | Cyfanswm (% y Safle) |
|---|---|---|
| Gradd 1 (Rhagorol) | 0 | 0 |
| Gradd 2 (Da iawn) | 0 | 0 |
| Isradd 3a (Da) | 3.1 | 33 |
| Isradd 3b (Cymedrol) | 5.6 | 59 |
| Gradd 4 (Gwael) | 0.8 | 8 |
| Gradd 5 (Gwael Iawn) | 0 | 0 |
| Tir Arall / Ddim yn Amaethyddol | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **9.5** | **100** |

# Ffigurau




Site boundary

Auger location

Topsoil Sample

Soil Pit

N

Client

Reading Agricultural Consultants

Project No C681

Dwg. No 01

Scale NTS

Date 07/01/20

Drawn By ELA

Figure 1

Sample Locations

Project Name

Llanrwst, Conwy, Wales



R W Askew BSc(Hons) MISoilSci MSc CSCi

The Old Stables, Upexe, Exeter, EX5 5ND

Tel: 07753 227 224

Email: rw.askew@btinternet.com


© Askew Land and Soil Limited. Ordnance Survey © Crown copyright 2010. All rights reserved. Licence number




ALC Grade

- Grade 1
- Grade 2
- Subgrade 3a
- Subgrade 3b
- Grade 4
- Grade 5
- Other land

Site boundary

N

Client

Reading Agricultural Consultants

Figure 2:

Agricultural Land Classification

Project Name

Llanrwst, Conwy, Wales

| | |
|---|---|
| Project No | C681 |
| Dwg. No | 02 |
| Scale | NTS |
| Date | 07/01/20 |
| Drawn By | ELA |

R W Askew BSc(Hons) MISoilSci MSc CSCi
The Old Stables, Upexe, Exeter, EX5 5ND
Tel: 07753 227 224
Email: rw.askew@btinternet.com

# Atodiad A:
# Cofnodion Proffil y Pridd

ASKEW LAND+SOIL

| Rhif y Prosiect | Enw’r Prosiect | Parsel |
|---|---|---|
| C681 | Llanrwst, Conwy | Ffin y Safle |

| Dyddiad yr Arolwg | Math o Arolwg | Arolygwr / Arolygwyr | Cwmni |
|---|---|---|---|
| 08/01/2020 | Dosbarthiad Tir Amaethyddol | RA | Askew Land and Soil |

| Tywydd | Tirwedd | Defnydd tir a llystyfiant |
|---|---|---|
| Oer, sych, cymylog | Tonnog | Gwarchodfa Bori Broffesiynol (Porfa Barhaol) |

| Cyfeirnod Grid | Cod Post | Uchder | Ardal |
|---|---|---|---|
| SH79736238 | LL260DT | 21 | 9.5 |

| Darpariaeth y Weinyddiaeth Amaeth, | Manylion y Weinyddiaeth Amaeth, | Llifogydd |
|---|---|---|
| Isradd 3a | Dim | Parth Llifogydd 1 |

| AAR | AT0 | MDw | MDp | Dyddiau Capasiti Cae | Gradd hinsawdd |
|---|---|---|---|---|---|
| 1209 | 1460 | 84 | 76 | 242 | 2 |

| Craigwely | Dyddodion Arwynebol |
|---|---|
| Ffurfiad Graean Dinbych | Ardal fechan o rewglai i’r de-orllewin |

| Cymdeithas(au) Pridd 1:250,000 | Gwybodaeth fanwl am y pridd |
|---|---|
| Manod | Dim |

| Rhif Adolygiad | Dyddiad Adolygu |
|---|---|
| 2 | 22/01/2020 |

C681 Llanrwst, Adolygiad 2 Conwy, Dyddiad Adolygu 22/01/2020

| Pwynt | Cyfeirnod Grid NGR | X | Y | Uchder (m) | Llethr (gradd) | Agwedd | Defnydd Tir | Dyfnder (cm) Brig | Gwaelod | Trwch | Matrics Lliw Munsell | Smotiau Melyn Ffurf | Smotiau Melyn Lliw Munsell | Smotiau Llwyd | Clai glas | Gwead | Cerrig - math 1 % | >2cm | >6cm | Math | Cerrig - math 2 | Ped | SUBS STR | CaCO3 | Mn C | SPL | Sychder MBw | MBp | GD | Gwlyb WC | Gw | Dosbarthiad Tir Amaethyddol Terfynol Cyfyngiad 1 | Gradd | Nodiadau Proffil |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | SH 79750 62900 | 279750 | 362900 | 40 | 8 | SW | PGR | 0 | 15 | 15 | 10YR4/2 | | | | Nac ydi | MCL | 6 | 2 | 0 | SI | | | Amherthnasol | NON | Nac ydi | Nac ydi | -20 | -10 | 3a | WC I | 3a | Graddiant | 3b | Rhagdybir y bydd gwreiddiau'n treiddio i'r 20cm uchaf o garreg llaid llechog wedi'i hindreulio. |
| | | | | | | | | 15 | 33 | 18 | 10YR4/3 | | | | Nac ydi | MCL | 18 | | | SI | | | Cymedrol | NON | Nac ydi | Nac ydi | | | | | | | | |
| | | | | | | | | 33 | 53 | 20 | 5Y6/1 | | | | Nac ydi | MCL | 80 | | | SI | | | Gwael | NON | Nac ydi | Nac ydi | | | | | | | | |
| 2 | SH 79700 62800 | 279700 | 362800 | 32 | 10 | W | PGR | 0 | 22 | 22 | 10YR4/3 | | | | Nac ydi | MCL | 6 | 2 | 0 | SI | | | Amherthnasol | NON | Nac ydi | Nac ydi | 10 | 24 | 2 | WCII | 3b | Graddiant | 3b | Rhagdybir y bydd gwreiddiau'n treiddio i'r 20cm uchaf o garreg llaid llechog wedi'i hindreulio. |
| | | | | | | | | 22 | 55 | 33 | 10YR5/3 | FF | 10YR5/6 | | Nac ydi | MCL | 18 | | | SI | | | Cymedrol | NON | Nac ydi | Nac ydi | | | | | | | | |
| | | | | | | | | 55 | 60 | 5 | 10YR6/3 | CD | 10YR5/6 | | Ydi | MCL | 18 | | | SI | | | Cymedrol | NON | Ydi | Nac ydi | | | | | | | | |
| | | | | | | | | 60 | 80 | 20 | 5Y6/1 | | | | Nac ydi | MCL | 80 | | | SI | | | Gwael | NON | Nac ydi | Nac ydi | | | | | | | | |
| 3 | SH 79800 62800 | 279800 | 362800 | 40 | 3 | W | PGR | 0 | 22 | 22 | 10YR4/3 | | | | Nac ydi | MCL | 2 | 1 | 0 | SI | | | Amherthnasol | NON | Nac ydi | Nac ydi | 69 | 41 | 1 | WCI | 3a | Gwlybaniaeth | 3a | |
| | | | | | | | | 22 | 58 | 36 | 10YR5/4 | | | | Nac ydi | MCL | 4 | | | SI | | | Cymedrol | NON | Nac ydi | Nac ydi | | | | | | | | |
| | | | | | | | | 58 | 120 | 62 | 10YR5/6 | FD | 10YR6/8 | | Nac ydi | MCL | 4 | | | SI | | | Cymedrol | NON | Nac ydi | Nac ydi | | | | | | | | |
| 4 | SH 79700 62700 | 279700 | 362700 | 25 | 2 | W | PGR | 0 | 10 | 10 | 10YR5/2 | | | | Nac ydi | MCL | 2 | 2 | 0 | SI | | | Amherthnasol | NON | Nac ydi | Nac ydi | 66 | 36 | 1 | WCIII | 3b | Gwlybaniaeth | 3b | |
| | | | | | | | | 10 | 42 | 32 | 5Y5/1 | CD | 10YR5/6 | | Ydi | MCL | 2 | | | SI | | | Cymedrol | NON | Nac ydi | Nac ydi | | | | | | | | |
| | | | | | | | | 42 | 120 | 78 | 5Y6/1 | CD | 10YR5/6 | | Ydi | MCL | 2 | | | SI | | | Cymedrol | NON | Nac ydi | Nac ydi | | | | | | | | |
| 5 | SH 79800 62700 | 279800 | 362700 | 37 | 3 | SW | PGR | 0 | 24 | 24 | 10YR4/3 | | | | No | MCL | 2 | 1 | 0 | SI | | | Amherthnasol | NON | Nac ydi | Nac ydi | 70 | 42 | 1 | WCI | 3a | Gwlybaniaeth | 3a | |
| | | | | | | | | 24 | 56 | 32 | 10YR5/4 | | | | Nac ydi | MCL | 4 | | | SI | | | Cymedrol | NON | Nac ydi | Nac ydi | | | | | | | | |
| | | | | | | | | 56 | 120 | 64 | 10YR5/6 | FD | 10YR6/8 | | Nac ydi | MCL | 4 | | | SI | | | Cymedrol | NON | Nac ydi | Nac ydi | | | | | | | | |
| 6 | SH 79680 62600 | 279680 | 362600 | 25 | 8 | S | PGR | 0 | 20 | 20 | 10YR4/2 | | | | Nac ydi | MCL | 6 | 2 | 0 | SI | | | Amherthnasol | NON | Nac ydi | Nac ydi | -9 | 3 | 3a | WCI | 3a | Graddiant | 3b | Rhagdybir y bydd gwreiddiau'n treiddio i'r 20cm uchaf o garreg llaid llechog wedi'i hindreulio. |
| | | | | | | | | 20 | 44 | 24 | 10YR4/3 | | | | Nac ydi | MCL | 18 | | | SI | | | Cymedrol | NON | Nac ydi | Nac ydi | | | | | | | | |
| | | | | | | | | 44 | 64 | 20 | 5Y6/1 | | | | Nac ydi | MCL | 80 | | | SI | | | Gwael | NON | Nac ydi | Nac ydi | | | | | | | | |
| 7 | SH 79600 62500 | 279600 | 362500 | 25 | 14 | SW | PGR | 0 | 10 | 10 | 10YR4/2 | | | | Nac ydi | MCL | 6 | 2 | | SI | | | N/A | NON | Nac ydi | Nac ydi | -23 | -15 | 3b | WCI | 3a | Graddiant | 4 | Rhagdybir y bydd gwreiddiau'n treiddio i'r 20cm uchaf o garreg llaid llechog wedi'i hindreulio. |
| | | | | | | | | 10 | 35 | 25 | 10YR4/3 | | | | Nac ydi | MCL | 18 | | | SI | | | Cymedrol | NON | Nac ydi | Nac ydi | | | | | | | | |
| | | | | | | | | 35 | 55 | 20 | 5Y6/1 | | | | Nac ydi | MCL | 80 | | | SI | | | Gwael | NON | Nac ydi | Nac ydi | | | | | | | | |
| 8 | SH 79700 62500 | 279700 | 362500 | 25 | 8 | S | PGR | 0 | 20 | 20 | 10YR4/2 | | | | Nac ydi | MCL | 6 | 2 | | SI | | | N/A | NON | Nac ydi | Nac ydi | -2 | 11 | 3a | WCI | 3a | Graddiant | 3b | Rhagdybir y bydd gwreiddiau'n treiddio i'r 20cm uchaf o garreg llaid llechog wedi'i hindreulio. |
| | | | | | | | | 20 | 50 | 30 | 10YR4/3 | | | | Nac ydi | MCL | 18 | | | SI | | | Cymedrol | NON | Nac ydi | Nac ydi | | | | | | | | |
| | | | | | | | | 50 | 70 | 20 | 5Y6/1 | | | | Nac ydi | MCL | 80 | | | SI | | | Gwael | NON | Nac ydi | Nac ydi | | | | | | | | |
| 9 | SH 79600 62400 | 279600 | 362400 | 12 | 4 | W | PGR | 0 | 20 | 20 | 10YR4/3 | | | | Nac ydi | MCL | 2 | 1 | | SI | | | N/A | NON | Nac ydi | Nac ydi | 66 | 37 | 1 | WCI | 3a | Gwlybaniaeth | 3a | |
| | | | | | | | | 20 | 60 | 40 | 10YR5/4 | | | | Nac ydi | MCL | 4 | | | SI | | | Cymedrol | NON | Nac ydi | Nac ydi | | | | | | | | |
| | | | | | | | | 60 | 120 | 60 | 10YR5/6 | FD | 10YR6/8 | | Nac ydi | MCL | 4 | | | SI | | | Cymedrol | NON | Nac ydi | Nac ydi | | | | | | | | |
| 10 | SH79700 62400 | 279700 | 362400 | 12 | 4 | W | PGR | 0 | 10 | 10 | 10YR5/2 | | | | Nac ydi | MCL | 2 | 2 | | SI | | | Amherthnasol | NON | Nac ydi | Nac ydi | 66 | 36 | 1 | WCIII | 3b | Gwlybaniaeth | 3b | |
| | | | | | | | | 10 | 35 | 25 | 5Y5/1 | CD | 10YR5/6 | | Ydi | MCL | 2 | | | SI | | | Cymedrol | NON | Nac ydi | Nac ydi | | | | | | | | |
| | | | | | | | | 35 | 120 | 85 | 5Y6/1 | CD | 10YR5/6 | | Ydi | MCL | 2 | | | SI | | | Cymedrol | NON | Nac ydi | Nac ydi | | | | | | | | |

**Ffurf Smotiau**

FF - Ychydig iawn
FD - Ambell un nodweddiadol
FP - Ambell un amlwg
CF - Mân cyffredin
CD - Cyffredin nodweddiadol
CP - Cyffredin amlwg
MF - Nifer mân
MD - Nifer nodweddiadol
MP - Nifer amlwg
VF - Nifer uchel mân
VD - Nifer uchel nodweddiadol
VP - Nifer uchel amlwg

**Gwead**

C - Clai
CHK - Sialc
CS - Tywod bras
CSL - Lom tywodlyd bras
CSZL - Lom silt tywodlyd bras
FP - Mawndiroedd ffibrog a rhannol ffibrog
FS - Tywod mân
FSL - Lom tywodlyd mân
FSZL - Lom silt tywodlyd mân
HCL - Lom clai (trwm)
HP - Mawndiroedd deilbriddedig
HZCL - Lom clai stilt (trwm)
IMP - Anhreiddiadwy i wreiddiau
LCS - Tywod bras lomog
LFS - Tywod mân lomog
LMS - Tywod canolig lomog
LP - Mawndiroedd lomog
MCL - Lom clai (canolig)
MS - Tywod canolig
MSL - Lom tywodlyd canolig
MSZL - Lon silt tywodlyd canolig
MZ - Siltiau ysgafn morol
MZCL - Lom clai silt (canolig)
OC - Clai organig
OL - Lomau organig
OS - Tywod organig
PL - Lomau maenog
PS - Tywod mawnog
SC - Clai tywodlyd
SCL - Lom clai tywodlyd
SP - Mawndiroedd tywodlyd
ZC - Clai silt
ZL - Lom silt

**Siâp Ped**

SG - Un Gronyn
GRA - Gronynnol
SAB - Blociau Lledonglog
AB - Blociau Onglog
PRIS - Prismatig
PLAT - Haenaidd
MASS - Enfawr
NA - Amherthnasol

**Cyflwr Strwythur yr Isbridd**

N/A - Amherthnasol
Da
Cymedrol
Gwael

**Cryfder Pridd neu Ped**

Rhydd
Brau iawn
Brau
Cadarn
Cadarn iawn
Cadarn iawn
Caled iawn
Amherthnasol

**Calchaidd**

NON - Nid yn galchaidd (<0.5% CaCO3)
VSC - Ychydig iawn o galch (0.5 - 1% CaCO3)
SC - Ychydig yn galchaidd (1 - 5% CaCO3)
MC - Eithaf calchaidd (5 - 10% CaCO3)
VC - Calchaidd iawn (>10% CaCO3)

**Math o garreg**

CH - Sialc neu gerrig sialc
FSST - Tywodfeini graen mân meddal
GH - Gro gyda cherrig (caled) heb dyllau
GS - Gro gyda cherrig tyllog (y mathau o gerrig meddal a restrir uchod yn bennaf)
HR - cerrig neu greigiau caled (h.y. rhai na ellir eu crafu gydag ewinedd)
MSST - Tywodfaen graen ysgafn, canolig neu fras
SI - Cerrig neu greigiau meddal metamorffig neu igneaidd wedi'u hindreulio.
SLST - Calchfaen öolitig neu ddolomitig meddal
ZR - Cerrig neu greigiau meddal neu gleiog

**Maint Ped**

VF - Mân Iawn
F - Mân
M - Canolig
C - Bras
VC - Bras Iawn
NA - Amherthnasol

**Graddau Datblygiad Ped**

W - Gwan
M - Cymedrol
S - Cryf
N.A - Amherthnasol

**Dosbarth Gwlybaniaeth**

WC I
W II
WC III
WC IV
WC V
WC VI

**Graddau Dosbarthiad Tir Amaethyddol**

1
2
3a
3b
4
5
Nid yn amaethyddol

**Clai Glas**

Dim
Clai Glas
Amherthnasol

# Atodiad B: Disgrifiadau o'r Pyllau Pridd

| Cyfeirnod Grid | | | | | Topograffeg | | | | Fflora | | Tywydd ac amodau | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sgwâr | Dwyrain | Gogledd | Uchder | Pwynt agosaf | Graddiant | Agwedd | Ffurf llethr | Arwyneb | Dull trin | Mathau o lystyfiant | Tymheredd | Awyr | Gwynt | Gwlybaniaeth |
| SH | 7975 | 6290 | 40 | AB1 | 16 gradd | De | Ceugrwm | Gwastad | Heb ei aredig | Glaswelltir parhaol | Oer | Cymylog | Ysgafn | Sych |

| | Dyfnder | | Matrics | | | Clai Glas | | | Smotiau | | | Cynnwys carreg | | | | | Calch | Mn C | Strwythur ped/pridd | | | | Terfyn gorwel | | Mandylledd | SPL |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gorwel | Brig | Gwaelod | Gwead | Lliw | Munsell | Clai Glas | Lliw | Munsell | Ffurf | Lliw | Munsell | % | H | Math | S | Math | | | Datblygiad | Maint | Strwythur | Cryfder | Nodweddiadol | Ffurf | | |
| A | 0 | 15 | MCL | Llwyd tywyll Brown | 10YR4/2 | Nac ydi | | | | | | 6 | 0 | | 6 | Llechen | Dim | Dim | Cymedrol | Mân | Blociau Lledonglog | Cadarn | Sydyn | Llyfn | >0.5 | Nac ydi |
| B | 15 | 33 | MCL | Brown | 10YR4/3 | Nac ydi | | | | | | 18 | 0 | | 18 | Llechen | Dim | Dim | Cymedrol | Canolig | Blociau Lledonglog | Cadarn | Clir | Tonnog | >0.5 | Nac ydi |
| C | 33 | 53 | MCL | Llwyd | 5Y6/1 | Nac ydi | | | | | | 80 | 0 | | 80 | Llechen | Dim | Dim | Cymedrol | Bras | Blociau Onglog | Cadarn | Amherthnasol | Amherthnasol | >0.5 | Nac ydi |

| Pwll | WC | Gradd | Cyfyngiad(au) | Nodiadau |
|---|---|---|---|---|
| 2 | I | 3a | Gwlybaniaeth/ymarferoldeb | |

| Cyfeirnod Grid | | | | | Topograffeg | | | | Fflora | | Tywydd ac amodau | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sgwâr | Dwyrain | Gogledd | Uchder | Pwynt agosaf | Graddiant | Agwedd | Llethr o | Arwyneb | Dull trin | Mathau o lystyfiant | Tymheredd | Awyr | Gwynt | Gwlybaniaeth |
| SH | 7960 | 6240 | 12 | AB9 | 4 gradd | Gorllewin | Syth | Gwastad | Heb ei aredig | Glaswelltir parhaol | Oer | Cymylog | Ysgafn | Sych |

| | Dyfnder | | Matrics | | | Clai Glas | | | Smotiau | | | Cynnwys carreg | | | | | Calch | Mn C | Strwythur ped/pridd | | | | Terfyn gorwel | | Mandylledd | SPL |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gorwel | Brig | Gwaelod | Gwead | Lliw | Munsell | Clai Glas | Lliw | Munsell | Ffurf | Lliw | Munsell | % | H | Math | S | Math | | | Datblygiad | Maint | Strwythur | Cryfder | Nodweddiadol | Ffurf | | |
| A | 0 | 20 | MCL | Brown | 10YR4/3 | Nac ydi | | | | | | 6 | 0 | | 6 | Llechen | Dim | Dim | Cymedrol | Mân | Blociau Lledonglog | Cadarn | Sydyn | Llyfn | >0.5 | Nac ydi |
| B | 20 | 60 | MCL | Melynaidd Brown | 10YR5/4 | Nac ydi | | | | | | 18 | 0 | | 18 | Llechen | Dim | Dim | Cymedrol | Canolig | Blociau Lledonglog | Cadarn | Clir | Tonnog | >0.5 | Nac ydi |
| C | 60 | 120 | Llechen /MCL | Melynaidd Brown | 10YR5/6 | Nac ydi | | | FD | Brown Melyn | 10YR6/8 | 80 | 0 | | 80 | Llechen | Dim | Dim | Gwael | Bras | Blociau Onglog | Cadarn | Amherthnasol | Amherthnasol | >0.5 | Na |

# Atodiad C:
# Ddosbarthiad Maint y Gronynnau Uwchbridd

## ADRODDIAD

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Rhif yr Adroddiad** | **83103-20** | **N717 ROB ASKEW** | **Cleient C681 LLANWRST GOGLEDD CYMRU** |
| **Dyddiad Derbyn** | **13-ION-2020** | | |
| **Dyddiad Adrodd** | **17-ION-2020** | | |
| **Prosiect** | **PRIDD** | | |
| **Cyfeirnod Rhif Archeb** | **C681** | | |

| **Cyfeirnod Labordy** | | **SOIL466560** | **SOIL466561** | **SOIL466562** | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfeirnod Sampl:** | | 15 gradd | **AB4** | **AB9** | | | | | | | |
| **Yr hyn a fesurir** | **Uned** | PRIDD | PRIDD | PRIDD | | | | | | | |
| Tywod 2.00-0.063 mm | % w/w | 35 | 22 | 33 | | | | | | | |
| Silt 0.063-0.002 mm | % w/w | 40 | 55 | 43 | | | | | | | |
| Clai <0.002 mm | % w/w | 25 | 23 | 24 | | | | | | | |
| Dosbarth Gwaed ** | | mCL | MCL | MCL | | | | | | | |

**Nodiadau**

Nodiadau Dadansoddi

Roedd maint y sampl a gyflwynwyd yn ddigonol i gwblhau'r dadansoddiad gofynnol.

Dim ond yr eitem(au) a gyflwynwyd ar gyfer profion mae'r canlyniadau'n berthnasol iddynt.

Cyflwynir y canlyniadau ar sail deunydd sych oni bai y nodir fel arall.

Rheoli Dogfen

**Ni ddylid ailgynhyrchu'r adroddiad hwn, oni bai y gwneir hynny'n llawn, heb ganiatâd ysgrifenedig y labordy.**

**Gweler diffiniad y dosbarthiadau gwead yn y ddogfen sydd ynghlwm.

Adroddiad gan

***Myles Nicholson***

Tîm Rheoli Adnoddau Naturiol, isadran fasnachol Cawood Scientific Ltd.

Coopers Bridge, Braziers Lane, Bracknell, Berkshire, RG42 6NS

Rhif ffôn: 01344 886338

Ffacs: 01344 890972

e-bost: enquiries@nrm.uk.com

Technical Information

nrm laboratories

# Talfyriadau Dosbarthiadau Gwead ADAS (DU)

Dynodir y dosbarthiadau gwead gan y byrfoddau canlynol:

| **Dosbarth** | **Cod** |
|---|---|
| Tywod (Sand) | S |
| Tywod lomog (Loamy sand) | LS |
| Lom tywodlyd (Sandy loam) | SL |
| Lom silt tywodlyd (Sandy silt loam) | SZL |
| Lom silt (Silt loam) | ZL |
| Lom clai tywodlyd (Sandy clay loam) | SCL |
| Lom clai (Clay loam) | CL |
| Lom clai silt (Silt clay loam) | ZCL |
| Clai (Clay) | C |
| Clai silt (Silty clay) | ZC |
| Clai tywodlyd (Sandy clay) | SC |

Ar gyfer y dosbarthiadau *tywod, tywod lomog, lom tywodlyd* a *lom silt tywodlyd, mae*'n bosibl y dengys prif faint y ffracsiwn tywod gan ddefnyddio rhagddodiad, felly:

vf Mân iawn (Very Fine) (mwy na 2/3 o'r tywod yn llai na 0.106 mm)
f Mân (Fine) (mwy na 2/3 o'r tywod yn llai na 0.212 mm)
c Bras (Coarse) (mwy na 1/3 o'r tywod yn fwy na 0.6 mm)
m Canolig (Medium) (llai na 2/3 yn dywod mân a llai na 1/3 yn dywod bras).

Nodir yr isadrannau o ddosbarthiadau *lom clai* a *lom clai silt* yn unol â'r cynnwys clai fel a ganlyn:

M Canolig (medium) (llai na 27% o glai)
H Trwm (heavy) (27-35% clai)

Bydd y llythyren O yn rhagflaenu priddoedd organig, h.y. gyda mwy na 10% o gynnwys organig.

Bydd y llythyren P yn rhagflaenu priddoedd mawnog, h.y. gyda mwy na 20% o gynnwys mawnog.